Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maesydre
# Severn Road
# Y Trallwng
# Powys
# SY21 7SU

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Mai 2011**

**gan**

**Gareth Wyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Maesydre yn ysgol ar gyfer disgyblion iau cyfnod allweddol 2 (CA2) ac mae'n gwasanaethu tref farchnad Y Trallwng ger y ffin â Lloegr. Fe'i cynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol Powys. Yn ôl yr ysgol, nid yw'r dalgylch yn ffyniannus nac yn ddifreintiedig yn economaidd. Yn 2009/10, roedd gan oddeutu 19.84% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae 191 o ddisgyblion rhwng 7 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac fe'u trosglwyddir o'r ysgolion babanod yn y dref sy'n ei bwydo wedi iddynt gwblhau eu haddysg cyfnod allweddol 1 (CA1) ar ddiwedd Blwyddyn 2. Mae gan yr ysgol ddwy ffrwd ieithyddol, gyda 31 o ddisgyblion yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae niferoedd disgyblion wedi gostwng o'r 256 a gofnodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn 2005. Daw mwyafrif y disgyblion o gartrefi ble siaredir Saesneg yn iaith gyntaf, a tri y cant o ddisgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg.

Mae naw dosbarth, sef tri dosbarth oed cymysg/gallu cymysg cyfrwng Saesneg i Flwyddyn 3 a Blwyddyn 4, a thri dosbarth oed cymysg/gallu cymysg cyfrwng Saesneg i Flwyddyn 5 a Blwyddyn 6. Mae'r uned cyfrwng Cymraeg hefyd wedi'i threfnu yn ddosbarthiadau oed cymysg/gallu cymysg, y naill i Flwyddyn 3 a Blwyddyn 4, a'r llall i ddisgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. Mae'r ganolfan adnoddau arbenigol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gyfer disgyblion o Flynyddoedd 3, 4, 5 a 6. Mae gan chwe deg chwe disgybl, (33%) anghenion addysgol arbennig (AAA); nid oes gan yr un o'r rhain ddatganiad. Mae wyth y cant o boblogaeth yr ysgol yn blant teithwyr sipsi, ac mae 6% arall yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY).

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maesydre yw £3164 sy'n cymharu gydag uchafswm o £11812 ac isafswm o £2891 ar gyfer ysgolion cynradd ym Mhowys. Hon yw'r ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 83ain uchaf o'r 101 ysgol gynradd ym Mhowys. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd am dair blynedd.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Anfoddhaol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Anfoddhaol |

### Perfformiad presennol

Yn unol â Deddf Addysg 2005, rwyf fi o'r farn, ac mae Prif Arolygydd ei Mawrhydi yn cytuno, bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon.

Mae perfformiad cyffredinol yr ysgol ar hyn o bryd yn anfoddhaol oherwydd:

- safonau gwael yn gyffredinol; mae gormod o ddisgyblion yn methu â chyrraedd lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) (lefel 4) ym mhynciau craidd Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth; mae safonau yn anfoddhaol mewn Cymraeg ail iaith;
- mae tueddiadau mewn data ar ddeilliannau CC disgyblion yn gostwng ac nid oes cynnydd digonol wrth roi sylw i danberfformio ymysg disgyblion;
- nid yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn effeithiol o ran atal safonau rhag gostwng;
- nid oes gan y llywodraethwyr ddigon o wybodaeth am bolisïau na pherfformiad yr ysgol, ac mae diffyg cydymffurfio â'r gofynion Amddiffyn Plant, ac
- mae ymddygiad gwael lleiafrif o ddisgyblion yn cael effaith andwyol ar y dysgu a'r addysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- mae diffyg trylwyredd i hunan arfarnu, nid oes digon o randdeiliaid yn cael eu cynnwys yn y broses, ac nid yw'n bwydo i gynllunio datblygiad yr ysgol yn ddigonol nac yn dylanwadu ar ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) athrawon;
- mae cynllunio profiadau dysgu yn methu â diwallu anghenion disgyblion mewn dosbarthiadau oed cymysg/gallu cymysg yn ddigonol;
- ni ddefnyddir data asesu yn ddigon effeithiol i fwydo i gynlluniau athrawon, ac
- mae argymhellion o'r adroddiad arolygu diwethaf yn dal i fod yn feysydd ar gyfer gwelliant.

## Argymhellion

Mae angen:

A1 gwella safonau mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith a sicrhau bod datblygiad staff yn canolbwyntio'n agos ar godi safonau yn y pynciau hyn;

A2 gwella arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu;

A3 gwella ymddygiad lleiafrif bach o ddisgyblion a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol o ran dulliau o ymdrin â chamymddwyn;

A4 gwella asesu'r dysgu, ac asesu ar gyfer dysgu;

A5 gwella hunan arfarnu;

A6 sicrhau bod y corff llywodraethu yn cael gwybod yn well am berfformiad yr ysgol;

A7 sicrhau bod materion amddiffyn plant yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion;

A8 sicrhau bod polisïau'r ysgol yn cael eu diweddaru a'u rhannu'n llawn â'r staff a'r llywodraethwyr;

A9 gwella cyfathrebu rhwng y pennaeth, y rhieni, staff yr ysgol a'r llywodraethwyr, a

A10 sicrhau bod cynhaliaeth yn cael ei thargedu i bob plentyn sydd ag ADY a SIY a bod eu cynnydd yn cael ei fonitro'n ffurfiol yn gyson ar draws yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Pan fydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi, rhoddir y gweithdrefnau canlynol ar waith:

- mae'r ysgol yn cael ei rhoi ar restr o ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt;
- mae'r ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r gwendidau; a
- bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae lefelau medrau sylfaenol disgyblion yn amrywio'n fawr o fod yn wan i fod yn dda. Oherwydd y nifer fach o ddisgyblion sydd yn aml yn yr uned cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (CA2), rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon yn yr uned hon yn ofalus oherwydd gall canlyniadau un disgybl effeithio'n sylweddol ar y deilliannau mewn Cymraeg iaith gyntaf.

Er 2007 yn CA2, mae cyrhaeddiad disgyblion, fel y bernir gan asesiad athro, wedi bod yn is na deilliannau'r awdurdod lleol a Chymru gyfan, ac wrth gymharu â'r teulu o ysgolion â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim (PYD). Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4 neu uwch yn y pynciau craidd unigol sef Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, hefyd wedi gostwng ym mhob achos rhwng 2007/08 a 2009/10 ac mae'n is o lawer na chyfartaledd yr awdurdod lleol (ALl) a Chymru.

Yn yr un modd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd (y lefel 4 ddisgwyliedig mewn cyfuniad o Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) hefyd yn is na chanlyniadau'r teulu, a chanlyniadau lleol a chenedlaethol, ac mae'n gostwng. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y cyfan, er nad yw bechgyn yn perfformio llawn cystal â merched mewn llafaredd ac ysgrifennu, yn y Saesneg ac mewn Cymraeg iaith gyntaf.

Ychydig o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel uchaf (lefel 5) yn y pynciau craidd ac mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel hon hefyd wedi gostwng ym mhob achos rhwng 2007/08 a 2009/10 ac mae'n dipyn is na chyfartaledd yr ALl, Cymru a'r teulu o ysgolion.

Mae'r ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac ar ffin y chwartel isaf mewn Cymraeg iaith gyntaf yn 2009/2010 er bod ychydig o welliant i'w weld yn y canlyniadau mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn 2009/10 o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i gael PYD wedi gwella rhwng 2007/08 a 2009/10 a pherfformiad disgyblion nad ydynt yn cael PYD wedi gostwng dros yr un cyfnod.

Yn ôl data'r ysgol, gan ystyried yr enillion a gofnodir uchod, nid yw cyfradd y cynnydd mewn safonau yn dal yn ddigon i sicrhau y bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ar ddiwedd CA2 yn y flwyddyn bresennol.

Mae cynnydd wrth ddatblygu eu sgiliau allweddol ac eangach yn foddhaol ar y cyfan, ac yn dda yn yr uned Gymraeg. Mae safonau darllen yn dda mewn Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf. Mae ysgrifennu yn foddhaol ar y cyfan yn y ddwy iaith. Er hynny, anfoddhaol yw safonau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (SIY) yn gwneud cynnydd boddhaol wrth gaffael sgiliau allweddol a sgiliau eangach. Er hynny, mae cynnydd disgyblion SIY wrth ddysgu Saesneg yn rhy araf oherwydd, yn rhannol, diffyg strategaeth a rhaglen addysgu ddwys i helpu iddynt gaffael ail iaith.

Defnyddia'r disgyblion amrywiaeth o sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), yn enwedig prosesu geiriau, yn briodol, ond mae eu sgiliau cymhwyso data yn wan. Mae sgiliau rhan fwyaf y disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yn anfoddhaol yn arbennig mewn ysgrifennu a llafaredd. Mae sgiliau rhyngbersonol a dysgu mwyafrif y disgyblion yn foddhaol ar y cyfan.

**Lles: Anfoddhaol**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth briodol o faterion iechyd a diogelwch. Maent yn deall yr angen i fwyta bwydydd iach a chymryd rhan yn rheolaidd mewn clybiau chwaraeon ac ymarfer corff, sy'n helpu iddynt ddatblygu sgiliau bywyd priodol. Ychydig o ddisgyblion sy'n cyfrannu'n ddigonol at osod targedau eu hunain ar sut i wella'u gwaith.

Mae'r ffigwr presenoldeb cyfartalog o 92.6% yn is na'r targed o 95% ac wedi gostwng yn y tair blynedd diwethaf. Mae prydlondeb yn dda ar y cyfan, ac roedd ymddygiad yn ystod yr arolygiad yn dda yn gyffredinol. Mae sgiliau cymdeithasol a bywyd disgyblion yn foddhaol. Er hynny, mae ymddygiad cyson wael lleiafrif o ddisgyblion yn cael effaith andwyol ar y dysgu a'r addysgu, ac ar gydlynrwydd yr ysgol fel cymuned. Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn uchel.

Anaml y bydd y Cyngor Ysgol yn cyfarfod, a dibynna ar bresenoldeb y dirprwy bennaeth i ofalu bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelodd y Cyngor fod ymddygiad disgyblion yn flaenoriaeth o ran bod yn faes ar gyfer gwelliant, ond ychydig o ddylanwad a gânt ar agweddau eraill ar drefniadaeth yr ysgol a gwneud penderfyniadau. Mae'r disgyblion yn gyffredinol yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae lleiafrif ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned eangach.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod o brofiadau sydd yn ateb anghenion disgyblion a gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Er hynny, cyfyngedig yw'r gwaith mewn gwyddoniaeth, Cymraeg ail iaith a datblygiad data mewn TGCh.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn unol â CC 2008 drwy raglen ddynodedig, ond fe'i gweithredwyd yn anghyson yn y misoedd diwethaf. Rhoddir sylw i'r Cwricwlwm Cymreig yn y rhan fwyaf o gynlluniau dosbarth, ond mae'r ddarpariaeth Cymraeg ail iaith yn dibynnu'n rhy drwm ar waith yr Athrawes Fro. Ar y cyfan, nid oes gweithgarwch dilynol digon trwyadl gan athrawon dosbarth.

Mae pob dosbarth wedi'i drefnu i grwpiau oed a gallu cymysg. Bydd athrawon yn cynllunio ar y cyd fel ysgol uchaf (B5/6) ac isaf (B3/4) ar wahân, i sicrhau dull cyson o gyflwyno sgiliau a phynciau gan ddefnyddio dull thematig.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol ac eraill ac yn trefnu ymweliadau er enghraifft â'r amgueddfa leol, eglwysi a Neuadd y Dref. Cyfoethogir y cwricwlwm wrth i arlunwyr a storïwyr ymweld â'r ysgol. Darpara'r ysgol ystod briodol o brofiadau i'r disgyblion mewn datblygiad cynaliadwy, ond nid yw dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu'n ddigonol o fewn y cwricwlwm.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol briodol. Mae'r addysgu yn foddhaol neu'n well ym mwyafrif y gwersi ond mae rhai enghreifftiau o addysgu o safon uchel. Mae diffyg cyflymder ac addysgu egniol yn ddiffyg cyffredin. Mae gormod o wersi yn methu â chymell ac ysbrydoli disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwersi yn cynnwys amcanion, cyfeiriad at y sgiliau a thasgau dysgu i ddisgyblion. Ond, nid yw athrawon yn defnyddio digon ar ddata'r CC a data'r ysgol i gynllunio ac addasu gwersi i hybu safonau uwch.

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu geirfa a sillafu, ond ychydig o gynlluniau gwersi sy'n rhoi sylw i faterion megis tangyflawniad cyffredinol disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a Chymraeg ail iaith, a thangyflawniad bechgyn mewn ysgrifennu a llafaredd.

Ceir enghreifftiau o waith da sy'n seiliedig ar ymholiadau, ond mae cwmpas hyn yn gyfyngedig ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, mae ystod ac ansawdd y dulliau addysgu yn gyfyngedig. Nid yw tasgau nac adnoddau yn cael eu haddasu digon i roi sylw effeithiol i anghenion disgyblion.

Cwestiynau galw i gof mae'r athrawon yn eu holi yn bennaf; ychydig iawn o gwestiynu sydd ar lefel uwch ac anaml y caiff disgyblion gyfleoedd i atgyfnerthu'u dysgu. Ar y cyfan, mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel. Nid yw llawer o wersi yn cynhyrchu safonau gwaith digon uchel. Mewn llawer o lyfrau, mae taflenni gwaith nad ydynt yn ymestyn disgyblion. Ni fanteisir i'r eithaf ar waith cartref pob tro.

Bydd athrawon yn ymateb i dasgau disgyblion drwy roi adborth llafar a marcio ond, ar y cyfan ar draws yr ysgol, nid yw'r arfer hon yn ddigon effeithiol i wella ansawdd y dysgu. Anaml y mae disgyblion yn weithredol wrth wella neu ailddrafftio'u gwaith.

Nid yw gweithdrefnau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn yr ysgol yn ddigon clir. Ni chânt eu monitro'n ddigonol i hybu dealltwriaeth gytûn o feini prawf 'ffit orau'r' CC wrth ddyfarnu lefel briodol i waith disgybl 11 oed.

Mae Asesu ar gyfer Dysgu yn datblygu a cheir enghreifftiau ble mae dosbarthiadau yn rhannu amcanion dysgu ac yn defnyddio meini prawf llwyddiant. Er hynny, ychydig o ddosbarthiadau sy'n treulio digon o amser yn myfyrio ar feini prawf llwyddiant ac yn trafod â'r disgyblion yr oblygiadau i asesu a gwella'u gwaith.

Gwneir defnydd da o gymorthyddion dysgu ym mwyafrif y gwersi. Ar y cyfan, mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn briodol, ond mae dulliau rheoli ymddygiad yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae adroddiadau blynyddol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plant, ond nid ydynt pob tro yn nodi strategaethau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Digonol yw polisïau a threfniadau'r ysgol i hybu byw yn iach a lles.

Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n briodol ar draws yr ysgol. Caiff y disgyblion arweiniad digonol o safbwynt eu haddysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ond nid yw'r ysgol yn dangos sut mae ABCh wedi'i chynnwys ar draws pob maes pynciol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio effeithiol ac mae'n defnyddio gwasanaethau arbenigol yn briodol i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad priodol.

Ni ddarparwyd hyfforddiant Amddiffyn Plant diweddar i'r holl staff. Nid oes gan yr ysgol bolisi diogelu plant priodol. Nid yw gweithdrefnau i ddelio gyda materion diogelu wedi'u datblygu'n llawn.

Caiff disgyblion sydd ag ADY gymorth digonol ond mae ansawdd y gweithgareddau i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag AAA yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae cynlluniau dysgu unigol disgyblion (CDUau) yn glir ac yn benodol ond mae rhai yn gyfyngedig o ran cwmpas y targedau a roddir i ddisgyblion. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu cymorth priodol i ddisgyblion gan sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar bob rhan o'r cwricwlwm. Er hynny, nid yw gwaith disgyblion AAA mewn dosbarthiadau prif lif yn cael ei fonitro'n ffurfiol yn rheolaidd.

Mae'r disgyblion hynny sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael cymorth priodol gan athrawon a cymorthyddion dysgu yn y dosbarth. Er hynny, nid oes strategaeth gydlynol ysgol gyfan i alluogi disgyblion nad ydynt yn siarad Saesneg i gael rhaglen ddwys i'w helpu i ddysgu ail iaith. Ychydig o strategaethau sydd hefyd i gefnogi disgyblion sy'n fwy galluog a thalentog.

Anghyson yw gweithrediad strategaethau i roi sylw i'r disgyblion sy'n aflonyddu ar eu dysgu eu hunain ac ar ddysgu eraill, ac ni chaiff y strategaethau hyn eu monitro'n effeithiol. Nid yw rhan fwyaf y staff wedi cael hyfforddiant diweddar ar reoli ymddygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Hyrwyddir cydraddoldeb ac amryfaliaeth drwy wasanaethau, gweithgareddau dosbarth ac yng ngwaith cyffredinol yr ysgol. Mae disgyblion sydd ag AAA yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar weithgareddau'r ysgol, er bod ychydig yn cael eu tynnu o wasanaethau yn achlysurol i gael cymorth ychwanegol.

Mae polisïau ac arferion ar waith i ddelio gydag aflonyddu a bwlio ond nid yw'r rhain wedi bod yn effeithiol o ran atal achosion o ymddygiad gormesol.

Yn gyffredinol, mae'r adeiladau yn darparu amgylchedd dysgu priodol sydd wedi'i gyfoethogi gan arddangosiadau graenus o waith disgyblion, ond mae un dosbarth yn rhy fach i nifer y disgyblion. Defnyddir y cae mawr yn dda ar gyfer gweithgareddau cwricwlaidd ac amseroedd egwyl, a defnyddir y cyfleusterau yn y gymuned yn briodol.

Mae gardd fawr yn yr ysgol a ddefnyddir yn briodol fel dosbarth tu allan a lle i ymlacio.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd am dair blynedd. Yn ystod yr amser hwn, mae'r ysgol wedi bod, ac yn parhau i weithio ar weithredu mentrau strategol cenedlaethol. Mae'r fenter ysgolion iach yn cael effaith ar ffyrdd o fyw disgyblion, ond anghyson yw gweithrediad asesu ar gyfer dysgu rhwng dosbarthiadau ac nid yw Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 na dinasyddiaeth fyd-eang wedi'u datblygu'n ddigonol.

Yn ystod yr un cyfnod, cyflwynwyd llawer o fentrau ychwanegol yn deillio o'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys ailstrwythuro tîm rheoli'r ysgol, trefnu dosbarthiadau i grwpiau oed/gallu cymysg drwy'r ysgol, datblygu themâu cwricwlaidd newydd a chyflwyno cynllun mathemateg newydd.

Bu hyn yn rhaglen heriol, ac nid pob aelod o staff, nac ychwaith pob aelod o'r corff llywodraethu, sydd wedi cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses ymgynghori a phenderfynu ar ddatblygu a gweithredu'r mentrau hyn.

Ni roddwyd digon o sylw i sicrhau bod gan bob athro y sgiliau, y cymhelliant a'r cofnod o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) perthnasol angenrheidiol i weithredu'r holl fentrau hyn yn llwyddiannus.

Nid yw strwythurau rheoli, gweithdrefnau na phrosesau gwneud penderfyniadau yn ddigon effeithiol i gyfrannu'n effeithlon at wella'r ysgol. Mae amcanion presennol yr ysgol o safbwynt gwella safonau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â gwella ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion, yn aneffeithiol. Mae gormod o ddisgyblion yn methu cyrraedd safonau lefel 4 y cwricwlwm cenedlaethol yn y pynciau craidd, fel y disgwylir fel arfer, cyn iddynt adael yr ysgol.

Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol, a grëwyd yn 2010, wedi arwain at rai mân welliannau yn B3 a B4, ond ar y cyfan, nid oes digon o bwyslais ar wella ansawdd y dysgu a'r addysgu i ddosbarthiadau oed/gallu cymysg.

Nid yw'r arweinwyr, y rheolwyr na'r staff i gyd yn cyfathrebu yn ddigon da. Er bod yr athrawon i gyd yn weithgar, nid oes ymroddiad ysgol gyfan i rai o bolisïau a strategaethau allweddol yr ysgol sydd wedi'u bwriadu i wella safonau.

Mae gan y llywodraethwyr ddiddordeb ym mywyd beunyddiol yr ysgol.  Er hynny, nid ydynt yn gwybod yn ddigon da am bolisïau na pherfformiad yr ysgol ac nid ydynt yn llwyddo i sicrhau gwelliannau.  Nid yw'r aelodau yn ddigon gweithredol wrth ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol megis y cwricwlwm, trefniadaeth ddosbarth a monitro darpariaeth drwy brosesau hunan arfarnu'r ysgol.  Nid yw'r corff llywodraethu yn diwallu rhai o'r gofynion statudol allweddol, megis yr angen i drafod ac arddel amrywiol bolisïau, yn enwedig gweithdrefnau amddiffyn plant.

**Gwella ansawdd:  Anfoddhaol**

Mae amserlen benodol ar gyfer monitro pynciau ac agweddau eraill ar y ddarpariaeth yn eu tro.  Mae rhai enghreifftiau o sylwadau treiddgar gan y pennaeth a'r dirprwy, ond nid yw'r athrawon hynny sydd â chyfrifoldebau dysgu ac addysgu (CDA) yn ddigon gweithredol wrth fonitro ac arfarnu safonau.  Mae cofnodion o'u trafodaethau yn brin, felly hefyd cofnodion o gyfarfodydd staff.

Nid yw'r corff llywodraethu yn cael adroddiadau ar y ddarpariaeth a'r safonau mewn amrywiol feysydd gan aelodau'r uwch dîm rheoli a chydlynwyr pwnc.  O ganlyniad, nid oes ganddynt ddarlun cyfredol o'r safonau mewn amrywiol bynciau.

Trefnir datblygiad proffesiynol parhaus staff yn bennaf drwy weithgareddau hunangymorth mewnol.  Ar y cyfan, nid yw arferion da o ysgolion sy'n perfformio ar lefel uwch yn cael eu rhannu'n ddigonol i gael effaith ar safonau.

Dosbarthwyd holiaduron i rieni a disgyblion, a dadansoddir yr amryw o ymatebion yn briodol i wella agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Ni wnaed digon o gynnydd mewn perthynas â'r materion allweddol a adnabuwyd yn yr arolygiad blaenorol yn 2005.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Digonol**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion babanod cyfagos a'r ysgol uwchradd y mae'n ei bwydo, yn enwedig wrth gymedroli asesiadau.  Mae'r ysgol hefyd yn elwa o drafod materion proffesiynol ag ysgolion yn y grŵp clwstwr lleol.

Ceir cysylltiadau effeithiol ag elusennau, y gymuned leol a sefydliadau hyfforddi athrawon.  Nid yw'r cyswllt â rhieni wedi'i ddatblygu'n ddigonol i gael effaith ddigon llesol ar ansawdd yr addysg.

Mae partneriaethau defnyddiol â'r heddlu, y gwasanaeth tân ac ambiwlans sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi ymddieithrio i ddysgu hunan reolaeth a hunan gyfrifoldeb iddynt.

Mae dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill yn cael ei meithrin drwy themâu a dathliadau priodol.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae digon o athrawon yn yr ysgol ac mae ganddynt gymwysterau priodol i'r oedrannau a ddysgant. Caiff athrawon eu cefnogi'n effeithiol gan y cymorthyddion dosbarth sy'n rhoi cymorth da i'r unigolion neu'r grwpiau o ddisgyblion yn y gwersi.

Mae diffygion yn y modd y mae'r ysgol yn darparu ar gyfer datblygu anghenion staff. Ni wneir digon o ddefnydd o arbenigedd allanol i roi gwybodaeth i athrawon am ddulliau cyfredol o fynd i'r afael â llythrennedd a rhifedd a strategaethau rheoli ymddygiad.

Dim ond yn rhannol y mae gofynion y Cytundeb Cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Baich Gwaith' wedi'u bodloni. Nid yw agweddau megis monitro ac arfarnu'r dysgu a'r addysgu wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r adeiladau yn darparu amgylchedd dysgu ac addysgu priodol. Ar y cyfan, mae nifer ac ansawdd yr adnoddau sydd ar gael i'r disgyblion a'r athrawon yn dda, ac mae llyfrgell ac ystafell gyfrifiaduron addas. Mae bwrdd gwyn rhyngweithiol ym mhob dosbarth.

Mae'r corff llywodraethu yn trin a thrafod cyllideb flynyddol yr ysgol yn briodol; ychydig o danwario sydd y dyddiau hyn. Ond, oherwydd ei safonau anfoddhaol a'r diffygion mewn arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llanwyd 22 holiadur. Mae'r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn fodlon â'r ysgol ac yn nodi bod eu plant yn hoffi'r ysgol. Mae lleiafrif yn teimlo nad yw'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Teimla llawer bod eu plentyn yn gwneud cynnydd ond mae bron i hanner yn teimlo nad yw disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr addysgu yn dda, ond nid yw lleiafrif yn teimlo bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysga'r disgyblion yn yr ysgol. Nid yw lleiafrif o'r farn bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol ac nid ydynt yn fodlon â'r ffordd y cânt eu hysbysu am gynnydd eu plant.

Mae'r rhieni/gofalwyr i gyd yn teimlo bod aelodau staff yn trin plant yn deg ac yn barchus. Teimla'r rhan fwyaf fod yr ysgol yn helpu eu plentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb a'u bod yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff. Nid yw ychydig iawn o rieni a gofalwyr yn teimlo'n gyfforddus i fynd at yr ysgol efo cwestiynau, awgrymiadau a chwynion. Mae'r rhan fwyaf yn deall y drefn ar gyfer delio gyda chwynion.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llanwodd mwyafrif helaeth y disgyblion yr holiadur. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n teimlo'n anniogel; mae lleiafrif yn teimlo nad yw'r ysgol yn delio'n dda gyda bwlio. Mae mwyafrif mawr yn teimlo nad yw plant yn ymddwyn yn dda amser egwyl ac amser cinio. Mae bron pawb yn gwybod sut i gadw'n iach. Noda'r disgyblion i gyd eu bod yn cael eu cefnogi gan athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol i wneud cynnydd. Mae llawer yn mynegi bodlonrwydd efo gwaith cartref. Mae tua hanner y disgyblion yn teimlo nad ydynt yn gallu gwneud eu gwaith ar brydiau oherwydd ymddygiad eraill.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Phil Mostert | Arolygydd Tîm |
| Meic Francis | Arolygydd Lleyg |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Suzanne Foster | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:** Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |